# IS-BWYLLGOR DEDDFAU TRWYDDEDU A GAMBLO

**(Microsoft Teams)**

**Yn bresennol:** **Dydd Llun, 16 Awst 2021**

**Cadeirydd:** **Y Cynghorydd S.Paddison**

**Cynghorwyr:** Y Cynghorwyr J Miller, R Mizen ac M Protheroe

**Aelodau nad ydynt yn Pleidleisio:** Y Cynghorydd L Purcell

**Swyddogion:** N.Chapple, P.Malough, G.White, L.Morgan ac N.Jones.

---

1. **Cais i amrywio Trwydded Mangre - The Other Place**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cais canlynol i amrywio Trwydded Mangre o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

| | |
|---|---|
| Enw'r fangre | The Other Place |
| Cyfeiriad y fangre | 9 Ffordd Ynysderw, Pontardawe SA8 4EG |
| Enw'r Ymgeisydd | HB Pub Investments Ltd |
| Cyfeiriad yr ymgeisydd | The Aubrey Arms, Ffordd Gurnos, Ystradgynlais SA9 2LA |
| Enw'r Goruchwyliwr Mangre Dynodedig | Hans Andrei Dionisio Erive |

**Penderfynwyd: Penderfynodd** yr Is-bwyllgor **gymeradwyo'r** cais i amrywio'r Drwydded Safle, yn amodol ar amodau sy'n gyson â'r amserlen weithredu, ac fel yr ystyrir yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Dyma'r amodau:

a. Ni chaniateir i'r bar allanol (fel y nodir ar y cynllun sydd ynghlwm wrth y drwydded) werthu alcohol rhwng 9.00pm a 7.59am;
b. Bydd arwyddion amlwg yn cael eu codi yn yr ardd gwrw y tu allan, yn gofyn i gwsmeriaid gadw lefelau sŵn i'r lefel

lleiaf posib a gadael mewn modd tawel a threfnus, er mwyn lleihau'r effaith ar breswylwyr lleol;

c. Caiff system teledu cylch cyfyng ddigidol ei gosod ar y safle neu caiff y system bresennol ei chynnal, a fydd yn weithredol bob amser pan fydd y safle ar agor i'r cyhoedd ac yn gallu darparu lluniau o ansawdd tystiolaethol ym mhob golau, yn enwedig adnabod wynebau. Rhaid cadw'r recordiadau teledu cylch cyfyng am gyfnod o dri deg un (31) o ddiwrnodau, a'u gwneud ar gael i'w gwylio gan yr Heddlu neu swyddog awdurdodedig y cyngor ar gais:

   Rhaid i'r system roi sylw i'r meysydd canlynol:
   i. Perimedr allanol y safle;
   ii. Mynedfa/mynedfeydd ac allanfa/allanfeydd y safle;
   iii. Pob rhan gyhoeddus o'r safle (ac eithrio'r toiledau).

d. Bydd aelod o staff o'r safle, sy'n gyfarwydd â gweithredu'r system teledu cylch cyfyng, ar y safle bob amser pan fydd y safle ar agor i'r cyhoedd. Bydd yr aelod staff hwn yn gallu dangos a darparu data neu luniau diweddar i'r Heddlu neu'r swyddog awdurdodedig gyda chyn lleied o oedi â phosib yn dilyn cais cyfreithlon;

e. Bob nos Wener a nos Sadwrn, y nos Sul cyn unrhyw wyliau cyhoeddus, Noswyl Nadolig, Gŵyl San Steffan a Dydd Gwener y Groglith, bydd o leiaf ddau (2) oruchwylydd drws cofrestredig SIA ar ddyletswydd o 9.00pm tan yr amser cau;

f. Ar bob adeg arall, bydd Deiliad y Drwydded Safle yn asesu'r angen am oruchwylwyr drysau ac yn darparu goruchwyliaeth drws rhwng yr adegau hynny ac mewn unrhyw niferoedd sy'n ofynnol gan yr asesiad risg. Byddant hefyd yn arddangos eu trwydded SIA mewn band braich adlewyrchol tra byddant ar ddyletswydd;

g. Bydd cofrestr ddyddiol o bersonél diogelwch yn cael ei chynnal. Bydd y gofrestr yn dangos enw, cyfeiriad a rhif trwydded pob goruchwyliwr drws, a'r dyddiadau a'r

amseroedd y maent yn gweithredu. Rhaid bod y gofrestr ar gael i'r Heddlu neu swyddog awdurdodedig o'r cyngor ei harchwilio;

h. Bydd polisi Herio 25 yn berthnasol a bydd angen Prawf o Oedran gan unrhyw berson sy'n ymddangos o dan 25 oed sy'n ceisio prynu neu yfed alcohol. Dylai'r dull hwn o ddilysu fod yn fath o adnabyddiaeth sy'n cynnwys ffotograff ohonynt, dyddiad geni, a marc holograffig a dylid ei gyfyngu i:
   i. P.A.S.S. Cynlluniau prawf oedran achrededig e.e. Cerdyn Dinasyddion;
   ii. *Prawf GB;*
   iii. Cerdyn llun trwydded yrru neu basbort.

i. Rhaid i'r fangre gadw cofnodion cyfoes o hyfforddiant staff o ran gwerthiannau sy'n gysylltiedig ag oedran, ar ffurf ysgrifenedig neu electronig, sydd ar gael i'w harchwilio ar gais unrhyw swyddog awdurdodedig y cyngor neu'r Heddlu.

j. Cedwir cofnod yn rhoi manylion pob achos o wrthod gwerthu alcohol. Dylai'r cofnod gynnwys dyddiad ac amser gwrthod y gwerthu ac enw'r aelod o staff a wrthododd ei werthu. Dylai'r cofnod fod ar gael i'w archwilio yn y fangre gan yr Heddlu neu swyddog awdurdodedig y cyngor ar bob achlysur pan fydd y fangre ar agor.

k. Bydd y rheolwr a/neu'r staff yn rheoli'r mannau awyr agored i sicrhau nad yw cwsmeriaid y safle'n ymddwyn mewn modd swnllyd, stwrllyd neu sarhaus, a rhoddir mesurau ar waith i staff fonitro'r ardaloedd awyr agored yn rheolaidd.

l. Ni osodir unrhyw seinyddion ar gyfer codi lefel sŵn cerddoriaeth ar y tu allan i'r safle sy'n wynebu Ffordd Ynysderw a Stryd Francis.

m. Dim mynediad nac ail-fynediad i'r safle ar ôl 11.00pm.

n. Bydd pob cwsmer sy'n gadael y safle'n cael ei annog i adael drwy'r gatiau dwbl.

2. **Cais am ganiatâd ar gyfer Trwydded Mangre - Family Shopper**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cais canlynol i gymeradwyo Trwydded Mangre o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

| | |
|---|---|
| Enw'r fangre | Family Shopper |
| Cyfeiriad y fangre | 11-13 Ysguthan Road, Port Talbot SA12 6LY |
| Enw'r Ymgeisydd | Thayanlini Nageswaran |
| Cyfeiriad yr ymgeisydd | 86 Farm Drive, Port Talbot SA12 6TF |
| Enw'r Goruchwyliwr Mangre Dynodedig | Thayanlini Nageswaran |

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r cais am roi Trwydded Safle – Family Shopper, 11-13 Ysguthan Road, Port Talbot SA12 6LY a wnaed gan Thayanlini Nageswaran, 86 Farm Drive, Port Talbot SA12 6TF, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd ac yn amodol ar yr oriau gweithredu a'r amodau canlynol

3. **Cais i amrywio Trwydded Mangre - Gwesty'r Glyn Clydcach**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cais canlynol i Amrywio Trwydded Mangre o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

| | |
|---|---|
| Enw'r fangre | Gwesty Glyn Clydach |
| Cyfeiriad y fangre | Heol Longford, Longford, Castell-nedd |
| Enw'r Ymgeisydd | Brian Sheppard |
| Cyfeiriad yr ymgeisydd | 54 yr Heol Fawr, Bryncoch SA10 7TA |
| Enw'r Goruchwyliwr Mangre Dynodedig | Brian Sheppard |

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r cais am roi Trwydded Safle – Gwesty Glyn Clydach, a wnaed gan, Brian Sheppard, Heol Longford,

Castell-nedd SA11 1RA, yn amodol ar yr oriau gweithredu a'r amodau fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd